Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Adroddiad y Gymraeg 2021-22



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Cynnwys

Cyflwyniad .......... 3
Trosolwg o gynnydd .......... 4
Niferoedd ac ystadegau .......... 7
Cynnydd argymhellion adroddiad mapio'r Gymraeg .......... 15
Cydymffurfio .......... 25
- Safonau'r Gymraeg .......... 26
- Cwynion .......... 26
- Asesiad Sgiliau iaith .......... 27
- Penodiadau newydd .......... 28
- Ystadegau .......... 28
- Hyfforddiant .......... 28

Gofynion statudol eraill .......... 29

**Hygyrchedd**

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, braille, sain, hawdd ei ddarllen ac Arwyddeg a bydd yn ymdrechu i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw am y Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

**Clawr:** Urdd Gobaith Cymru

# Cyflwyniad

Bu'r flwyddyn adrodd hon yn un llawn sialensiau a newidiadau i Gyngor Celfyddydau Cymru a'r sector yn ehangach. Serch hynny, llwyddwyd i oroesi a gosod cynsail mwy cadarn i ddatblygiadau'r Gymraeg.

Yn yr adroddiad hwn, byddwn yn pwysleisio cynnydd Cyngor Celfyddydau Cymru er mwyn cefnogi'r sector i dyfu a datblygu eu hymwneud â'r Gymraeg.

Ein gweledigaeth drosfwaol yw Cymru greadigol lle mae'r celfyddydau'n ganolog i fywyd a llesiant y genedl. Rydym wedi ymrwymo i'n gweledigaeth o hyd, er gwaethaf Covid-19. Disgrifir ein nodau yn fanylach yn ein cynllun corfforaethol 2018-23 *Er Budd Pawb*. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn mae'r Cyngor yng nghanol cyfnod o Adolygiad Buddsoddiad a ohiriwyd oherwydd y pandemig. Rydym hefyd yn y broses o lunio'r brif strategaeth gorfforaethol newydd ar gyfer sefydliad a fydd yn cynnwys strategaeth y Gymraeg, a meysydd eraill gan gynnwys Cyfiawnder Hinsawdd.

Sail cyflawniad gwaith yr ysgogydd yw cyflawni argymhellion adroddiad mapio'r Gymraeg.

Mae ein hymchwil Mapio'r Gymraeg wedi ei gwneud yn glir na allwn fod yn adweithiol ynghylch y Gymraeg. Mae gennym rôl eglur yn y gwaith o'i datblygu, hyrwyddo'r defnydd ohoni a'i gwerth ar bob cyfle, a dod â chreadigrwydd a dychymyg er mwyn sicrhau y bydd yr iaith yn parhau i ffynnu.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cyflawni gofynion amrywiol a phellgyrhaeddol mewn sawl maes ac yn ymrwymo i weithredu'r holl amcanion ar draws y cyngor. Mae gwybodaeth am y gofynion hyn ar ddiwedd yr adroddiad.

# Trosolwg o gynnydd




Cynllun Noson Allan

Croesawyd Ysgogydd y Gymraeg i'w swydd ym mis Tachwedd 2021. Mae'r ysgogydd yn gyfrifol am ddarganfod ffyrdd o gyflawni amcanion yr adroddiad mapio a chefnogi'r sector a'r Cyngor i ehangu ac esblygu eu gweithredoedd Cymraeg.

Bu aelodau o'r Cyngor, yr Uwch Dîm Arwain a rheolwyr rhaglenni'r Cyngor yn dilyn cwrs Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog mewn partneriaeth ag adran 2050 Llywodraeth Cymru a chwmni Cadenza a draddododd y cwrs.

Rydym wedi cynnal sesiynau ymgynghorol yn fewnol ac allanol gyda ffocws ar ddatblygu strategaeth newydd ar gyfer y Gymraeg a'r celfyddydau.


Lansiwyd gwefan Cwtsh Creadigol sy'n adnodd dwyieithog i weithwyr y sector iechyd.

Yn dilyn llwyddiant y rhaglen Dysgu Creadigol i sicrhau parhad am 3 blynedd bellach, adolygwyd y cwestiwn ynglŷn â gofynion y Gymraeg o fewn y ffurflen gais. Mae'r cwestiwn nawr yn gofyn am wybodaeth ynghylch datblygu iaith a diwylliant Cymraeg o fewn eu cynlluniau.

Lluniwyd cytundeb gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg sy'n adeiladu ar y cynlluniau peilot a geir eisoes yng Nghanolfan Iaith Nant Gwrtheyrn. Mae'r cytundeb yn cynnwys buddsoddiad o £50,000 gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg sydd wedi galluogi creu swydd newydd, Cydlynydd Dysgu Cymraeg ar gyfer y Cyngor a'r sector. Nod y bartneriaeth yw creu gwasanaeth 'Iaith Gwaith' wedi ei deilwra'n arbennig ar gyfer y celfyddydau. Erbyn dyddiad ysgrifennu'r adroddiad mae'r Cydlynydd wedi dechrau yn y gwaith gyda chynllun pellgyrhaeddol mewn lle sy'n cynnwys buddsoddiad wrth Gyngor Celfyddydau Cymru i gefnogi gweithwyr creadigol llawrydd i fynychu cyrsiau dysgu Cymraeg.

Comisiynwyd Cwmni Arad i gynnal ymchwil ar Lwybrau Datblygu'r Gymraeg o fewn y celfyddydau i weithwyr creadigol.

Lluniwyd Consortiwm Celf Cymraeg newydd. Erbyn llunio'r adroddiad hwn mae'r consortiwm wedi nodi themâu creadigol penodol er mwyn datblygu ymhellach. Mae'r rhain yn cynnwys llunio 'maniffesto' a chamau arweiniol ar 'osod y Gymraeg yng nghanol creadigrwydd; Synhwyro'r Iaith – pecyn cymorth technegau creadigol i gefnogi dysgu a defnyddio'r Gymraeg; a Llais y lle – cefnogi artistiaid unigol i weithio mewn cymunedau i ddatblygu ymarfer diwylliannol ac ymchwilio i ddulliau cyfieithu a dehongli ein hunaniaeth yn greadigol.




Cwmni theatr Frân Wen mewn ysgolion



Cynllun Noson Allan,
Aberdyfi

Mae cynllun Noson Allan Cyngor Celfyddydau Cymru, sy'n galluogi cymunedau i gynnal sioeau celfyddydol yn eu hardaloedd nhw, wedi bod yn datblygu partneriaeth gyda'r Mentrau Iaith ar draws Cymru er mwyn annog mwy o gydweithio a thrafod ynghylch cynorthwyo cymunedau a hyrwyddo perfformiadau ac artistiaid drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws Cymru. Mae'r berthynas yma wedi datblygu i drafod cyfleodd eraill megis ceisiadau grant trwy ein llinynnau Loteri.

Mae'r adran Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn llunio rhaglen gynhwysfawr o waith i hyrwyddo dwyieithrwydd Cymru ar y llwyfan rhyngwladol a chyfrannu i Ddegawd Rhyngwladol Ieithoedd Brodorol y Cenhedloedd Unedig 2022 i 2032, gan ganolbwyntio ar hawliau dynol defnyddwyr ieithoedd brodorol a fydd ar fap trywydd strategol i roi blaenoriaeth i rymuso defnyddwyr ieithoedd brodorol.


# Niferoedd ac ystadegau

## Arian loteri


Yn 2021/22 roedd 11 cynllun ar agor ar gyfer ceisiadau. Cafwyd cyfanswm o 726 o geisiadau. Roedd cyfradd llwyddiant o tua 51% ar gyfartaledd a chyfanswm o 369 yn wobrau llwyddiannus. Buddsoddwyd £14.6 miliwn o bunnoedd i'r prosiectau Loteri hyn yn 2021/22.

Isod gwelir fethodoleg a chanlyniadau cyfrifo canran y buddsoddiad ar gyfer y Gymraeg ar draws y rhaglenni loteri. Roedd 14.5% o wariant y loteri ar brosiectau gyda ffocws ar y Gymraeg a 14.5% pellach ar brosiectau oedd a'r Gymraeg yn gyfartal a iaith arall.

Ceisiadau




Ceisiadau llwyddiannus





*Clera,* Cwmni Theatr Arad Goch (Llun: Urien Morgan)

## Methodoleg


Mabwysiadwyd methodoleg ychydig yn wahanol o gasglu data iaith prosiectau. Cynt, dim ond blwch 'Cymraeg', 'Saesneg' neu 'arall' a oedd yn bodoli a gallai ymgeiswyr ddewis un, dau neu dri o'r opsiynau. Ers 2021/22 rydyn ni'n gofyn am ganran y prosiect sy'n cael ei darparu o dan bob un o'r opsiynau iaith. Mabwysiadwyd y fethodoleg yma er mwyn cael gwell dealltwriaeth o waith dwyieithog neu amlieithog. O'r herwydd mae cymariaethau uniongyrchol â blynyddoedd blaenorol yn anodd ond fel y gwelwn o'r siart isod bu symudiad i ffwrdd o brosiectau un iaith. Mae newid yn y dull casglu data wedi caniatáu dealltwriaeth fanylach o'r iaith gyflenwi.

Gwelir symudiad i ffwrdd o un iaith gyflenwi, i brosiectau dwyieithog ac amlieithog.

Mae cynnyrch uniaith Gymraeg draddodiadol, bellach yn gynnyrch dwy/aml-ieithog oherwydd bod elfennau o'r gwaith yn cynnwys BSL ac yn ddefnyddio gweithgareddau ymgysylltu ehangach.

Roedd 8% o'r holl geisiadau a gyflwynwyd yn brosiectau un iaith, gyda 2% o'r holl geisiadau a gyflwynwyd ar gyfer cynnyrch neu weithredoedd uniaith Gymraeg ac 1% o'r holl geisiadau llwyddiannus ar gyfer cynnyrch neu weithredoedd uniaith Gymraeg.


## Iaith prosiectau llwyddiannus fesul awdurdod lleol




Mae'r darpariaethau uniaith Gymraeg yng Nghaerdydd, Ceredigion a Gwynedd a'r Saesneg yn unig yng Nghaerdydd, Ynys Môn, Sir Fynwy a Phowys.

Wrth edrych ar brosiectau Dwyieithog ac Amlieithog roedd y rheiny â ffocws Cymreig yn tueddu i fod yng ngogledd a gorllewin Cymru.


## Iaith prosiectau llwyddiannus fesul ffurf celfyddydol





Mae'r cynnyrch neu weithredoedd uniaith Gymraeg yn y meysydd aml-gelfyddyd, gwyliau, carnifalau a gwyliau, celf weledol ac opera.

Er bod llawer o cynyrchiadau Drama Cymraeg wedi bodoli yn ystod y flwyddyn, nid ydyn nhw'n cael eu cynnwys fel cynyrchiadau uniaith Gymraeg oherwydd hygyrchedd a dulliau ymestyn cyfranogiad.


## Canrannau buddsoddiad fesul dyraniad iaith




Prosiectau un iaith





Prosiectau dwy-ieithog




Prosiectau aml-ieithog

## Cyfanswm gwariant Loteri ar y Gymraeg: 29%



## Mudiadau Portffolio Celfyddydol Cymru

Mae'r Cyngor yn ariannu 67 o fudiadau portffolio celfyddydol.

Dyma ganlyniadau data holiadur blynyddol y mudiadau hynny ar gyfer 2021/22.

Cynhaliwyd 4,476 o brosiectau

gan arwain at 2,862,772 o fynychwyr a chyfranogwyr, 48,450 o ddigwyddiadau a sesiynau

**gyda 12% o'r gweithgareddau yn digwydd yn Gymraeg**

a 68% yn digwydd wyneb yn wyneb

Cynhyrchwyd y prosiectau hyn gan 6,800 o weithwyr, gwirfoddolwyr, gweithwyr llawrydd ac ymddiriedolwyr

mewn 67 o sefydliadau portffolio

**sy'n cynnwys 1,397 o siaradwyr Cymraeg**

yn gweithio ar draws 22 awdurdod lleol yng Nghymru

gyda 7% o sesiynau cyfranogol a 24% o ddigwyddiadau'n ymgysylltu â grwpiau penodol


## Gweithgareddau a pherfformiadau

- Gwelwyd gostyngiad yn nifer y sesiynau Cymraeg ym mhob maes heblaw Teithiau.
- Cynhyrchwyd bron i un o bob tri (31%) o'r holl Gynyrchiadau Teithiol yn y Gymraeg. (-5% yn erbyn 20/21).
- Yr ardal a'r ganran isaf o allbwn Cymraeg oedd Dangosiadau Ffilm (1%).
- Gwelwyd y cwymp mwyaf mewn lleoliadau cyflwyno gwaith (-10%).
- Roedd nifer y sgyrsiau Cymraeg a chwestiwn ac ateb wedi dyblu (14% o weithgarwch yn erbyn 7% yn 20/21).


## Mynychwyr

- Ym mhob maes ond un, gwelwyd gostyngiad ers 20/21.
- Roedd y gyfran uchaf o fynychwyr yn yr iaith Gymraeg ym maes plant a phobl ifanc (10%), ond yma hefyd gwelir y cwymp mwyaf (-10%).
- Y maes gyda'r ganran isaf o bobl yn mynychu yn Gymraeg oedd Hyfforddiant, Gweithdai a Digwyddiadau (1%).
- Mae nifer y prosiectau sy'n targedu siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu traean (+33%).

% o Sesiynau / Perfformiadau / Cyhoeddiadau yn y Gymraeg




% o Fynychwyr yn y Gymraeg



## Canlyniadau’r holiadur celfyddydol cenedlaethol

Yn gyffredinol roedd 88% o'r ymatebwyr i'r arolwg yn nodi eu bod wedi mynychu neu gymryd rhan mewn digwyddiad yn y celfyddydau yn ystod 2021/22. Dim ond 6% o'r rhai a fynychodd neu a gymrodd ran mewn digwyddiad Cymraeg.

Radio Platfform,
Canolfan Mileniwm Cymru





Cynllun Noson Allan, Rudry



Cynllun Noson Allan

# Cynnydd argymhellion adroddiad mapio'r Gymraeg

| Argymhelliad adroddiad mapio 2020 | Ymrwymiad gweithredol Cyngor Celfyddydau Cymru 2020 fel ymateb i'r adroddiad | Cynnydd |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 1**<br>Y Cyngor i arwain ar greu partneriaeth strategol hirdymor ar draws sectorau a sefydlu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng sector y celfyddydau a sector y Gymraeg, gan fabwysiadu model arian cyfatebol ar gyfer mentrau penodol y cytunwyd arnynt a phrosiectau cenedlaetho.l | Sefydlu cyfarfod ar gyfer sefydliadau allweddol yn y sector cyhoeddus a nodwyd yn yr ymchwil i gwrdd â thrafod opsiynau i gydweithio.<br><br>Hwyluso'r gwaith o ddatblygu partneriaeth strategol gyda nodau clir ar gyfer hyrwyddo gweithgarwch yn y Gymraeg.<br><br>Ceisio sefydlu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhyngom ni a'r rhwydwaith cyn diwedd blwyddyn ariannol 2020/21.<br><br>Gwneud yn siŵr bod ein gweithgareddau'n cefnogi ein hymrwymiad i Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac yn adrodd yn ôl amdanynt. | Datblygu perthynas bartneriaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg a Nant Gwrtheyrn trwy'r cynllun peilot dysgu Cymraeg.<br><br>Cynnal 10 sesiwn drafod allanol a mewnol i drafod a mewnbynnu i strategaeth y dyfodol. Man cychwyn rhwydwaith posib.<br><br>Ffurfioli partneriaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gan gynnwys buddsoddiad o £50,000 o'r Ganolfan sydd wedi arwain at swydd Cydlynydd Dysgu Cymraeg o fewn y Cyngor.<br><br>Parhau i annog a galluogi partneriaethau llawr gwlad trwy gynllun ariannu Cysylltu a Ffynnu.<br><br>Sefydlu rhwydwaith hyrwyddwyr Cymraeg trwy gynllun Noson Allan.<br><br>Cynnal sesiynau ymgynghorol yn fewnol ac allanol gyda ffocws ar amcanion gweithredol y Gymraeg a'r Ddeddf Llesiant. |

| Argymhelliad adroddiad mapio 2020 | Ymrwymiad gweithredol Cyngor Celfyddydau Cymru 2020 fel ymateb i'r adroddiad | Cynnydd |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 2**<br>Y Cyngor/sector i ddatblygu'r Gymraeg i sefydlu consortiwm a rhwydwaith am y Gymraeg sy'n cynnwys aelodau o sector y Gymraeg a'r Portffolio i weithredu blaenoriaethau y cytunwyd arnynt a datblygu cydweithio agosach a rhannu arbenigedd a gwybodaeth. | Gwahodd sefydliadau allweddol a nodwyd yn yr ymchwil o'r Portffolio a sector y Gymraeg i gyfarfod i drafod opsiynau ar gyfer cydweithio creadigol.<br><br>Os gellir cytuno ar gydamcanion rhwng partneriaid, byddwn ni'n annog a chefnogi'r datblygiad ffurfiol o Gonsortiwm Celfyddydol Cymraeg. Ein nod yw i hyn ddatblygu rhestr o syniadau creadigol posibl i'w datblygu yn unol â'n hamcanion.<br><br>Sicrhau bod y consortiwm yn amrywiol ac yn cynnwys cynrychiolwyr Cymraeg o'r holl nodweddion gwarchodedig. | Llunio cynllun, sicrhau cyllid a chreu galwad i artistiaid cysylltiol y Cyngor i ymuno â chonsortiwm celf Cymraeg.<br><br>Creu consortiwm celf Cymraeg o 12 o aelodau o wahanol arbenigeddau celfyddydol gyda ffocws penodol ar weithredu trwy a gyda'r Gymraeg. Bydd aelodaeth y consortiwm yn newid yn flynyddol.<br><br>Sicrhau amrywiaeth profiadau byw, celfyddydol, daearyddol ac oed wrth ddewis aelodaeth y consortiwm celf Cymraeg.<br><br>Hwyluswyd rhwydweithio trwy ein cronfeydd:<br>• Cysylltu a Ffynnu gyda'r pwyslais ar gydweithredu a'r Gymraeg. Mae wedi arwain at rwydweithio newydd.<br>• Gweithgarwch wedi'i ariannu gan Gydrannu yn canolbwyntio ar gynwysoldeb er mwyn ffurfioli rhwydwaith o gwmnïau theatr gymunedol yn Gymraeg.<br>• Rhoddodd y bartneriaeth rhwng Theatr Genedlaethol Cymru a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol gyfle i weithwyr llawrydd rwydweithio ac ar yr un pryd wella eu sgiliau Cymraeg.<br>• Awgrymwyd ymagwedd sydd wedi'i seilio mwy ar rwydwaith, gan ystyried o bosibl gyfarfodydd trafod â thema i ddadansoddi problemau a hyrwyddo blaenoriaethau mewn meysydd gwahanol. |

| Argymhelliad adroddiad mapio 2020 | Ymrwymiad gweithredol Cyngor Celfyddydau Cymru 2020 fel ymateb i'r adroddiad | Cynnydd |
|---|---|---|
| Argymhelliad 3<br>Y Cyngor a'r sector datblygu iaith i greu ar y cyd swydd newydd, Rheolwr Datblygu'r Celfyddydau Cymraeg, i arwain ar weithio'n agosach yn genedlaethol/ar draws y sector. | Cynyddu ein gallu i gefnogi datblygiadau yn y Gymraeg a byddwn ni'n clustnodi arian i gefnogi'r argymhelliad yn y flwyddyn ariannol bresennol.<br><br>Mewn ymgynghoriad â'r darpar bartneriaid a nodwyd yn yr adroddiad (ac o bosibl y Bartneriaeth Strategol os caiff ei sefydlu'n gyflym), byddwn ni'n ymchwilio i'r ffordd fwyaf cost effeithiol o gyflwyno'r argymhelliad fel mater o frys. | Cytuno ar delerau ac amodau swydd Ysgogydd y Gymraeg.<br><br>Hysbysebu swydd Ysgogydd y Gymraeg a recriwtio.<br><br>Penodi Ysgogydd y Gymraeg (Graddfa D) ar gytundeb 3 mlynedd i ddechrau ar Dachwedd 1af 2021. |
| Argymhelliad 4<br>Y Cyngor i'w wneud yn amod bod chwarter o bob bwrdd yn y Portffolio yn siaradwyr Cymraeg. | Sicrhau bod byrddau'r holl Bortffolio yn cynrychioli'r cyhoedd y maent yn eu gwasanaethu a hyrwyddo cydraddoldeb. (Gall 25% fod yn afrealistig i rai sefydliadau gan ddibynnu ar eu lleoliad a'u diben. Felly, rydym ni'n croesawu ysbryd yr argymhelliad ond byddwn ni'n dod o hyd i ddull amgen i osod cwota a chanran.)<br><br>Rydym ni'n cydnabod y dylanwad sydd gan unrhyw fwrdd ar ei sefydliad. Rydym ni hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cael profiad byw o'r Gymraeg ar fyrddau. Gan fod y cynnydd cyffredinol i fyrddau cynhwysol ac amrywiol wedi bod yn annerbyniol o araf, byddwn ni'n fwy rhagweithiol yn ein galwadau ynghylch cyfansoddiad byrddau'r Portffolio fel eu bod yn dod yn fwy cynrychioliadol a gwybodus am anghenion a buddiannau'r rhai y maent yn eu gwasanaethu. Caiff hyn ei gynnwys yn y cytundebau ariannu blynyddol ar gyfer 2021/22 a bydd yn amod ar gyfer derbyn cynlluniau ariannu. | Mae'r Pecyn Hyrwyddo Dwyieithrwydd a ddatblygwyd yn benodol i sector y celfyddydau gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi cael ei gyhoeddi ar ein gwefan a gellir ei weld yma.<br><br>Mae'r Pecyn yn cynnwys llenwi holiadur 'Pa mor ddwyieithog ydych chi?' a all fod y cam cyntaf yn y broses o ymuno â chynllun y Cynnig Cymraeg.<br><br>Mae'r Cynnig Cymraeg yn safon ansawdd a gynigir gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'n dangos pwy sy'n falch o ddarparu, ac yn mynd ati i ddarparu, rhai o'u gwasanaethau yn Gymraeg ac yn ei gwneud yn hawdd i'r cyhoedd weld beth sy'n cael ei gynnig trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Mae cytundebau mudiadau portffolio yn cynnwys gofyn i gyflawni'r Cynnig Cymraeg a sicrhau bod o leiaf un aelod o'r bwrdd yn medru'r Gymraeg a bod polisi a chynllun gweithredu iaith Gymraeg mewn lle. |

| Argymhelliad adroddiad mapio 2020 | Ymrwymiad gweithredol Cyngor Celfyddydau Cymru 2020 fel ymateb i'r adroddiad | Cynnydd |
|---|---|---|
| Argymhelliad 4 (parhad) | | Erbyn hyn cyrhaeddwyd Safon 90 Ystyried y Gymraeg. Rydym wedi cynnwys cwestiwn yn ein ffurflenni cais am grant sy'n gofyn "Pa effaith ydych chi'n meddwl y bydd y prosiect hwn yn ei chael ar y Gymraeg?' (cadarnhaol/niwtral/negyddol) ac yn gofyn i ymgeiswyr esbonio pam y bydd y prosiect yn cael yr effaith ar y Gymraeg a nodwyd.<br><br>Mae hyn yn profi'n ddefnyddiol o ran gwneud i ymgeiswyr feddwl am eu darpariaeth Gymraeg yn y prosiect.<br><br>Mae ein nodiadau canllaw ar gyfer yr Adolygiad Buddsoddi hefyd yn datgan yn eglur fod y Gymraeg yn un o'n blaenoriaethau a'i bod wedi cael ei chynnwys yn ein proses asesu.<br><br>Gan fod yr Adolygiad Buddsoddi wedi cael ei ohirio oherwydd y pandemig, rydym yn edrych ar y cyfleoedd y gall y broses eu cynnig i gryfhau cyfraniad sefydliadau'r Portffolio at gynnydd mewn gweithgarwch creadigol Cymraeg. |

| Argymhelliad adroddiad mapio 2020 | Ymrwymiad gweithredol Cyngor Celfyddydau Cymru 2020 fel ymateb i'r adroddiad | Cynnydd |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 5**<br>Y Cyngor i sicrhau newid sylweddol yn yr ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, ei diwylliant a'i hanes yn sector y celfyddydau gan ddechrau gyda chyflwyniad i'r Gymraeg, ei diwylliant a'i hanes dan arweiniad yr Athro Peredur Lynch a'r Athro Mererid Hopwood ar gyfer holl staff y Cyngor. | Sicrhau bod rhaglen ddysgu ar-lein ar hanes a chyd-destun diwylliannol Cymru ar gael.<br><br>Comisiynu siaradwyr ysbrydoledig i baratoi sgyrsiau i'w rhannu. | Cynllunio darpariaethau a chyrsiau ymwybyddiaeth iaith berthnasol i'r sector gelfyddydol. Cynlluniau gwreiddiol ar gyfer adnodd ar lein a chyrsiau wedi eu teilwra. Bydd y gwaith yn cychwyn pan bydd casgliadau o'r sesiynau arwain mewn gwlad ddwyieithog wedi eu cwblhau.<br><br>Y Cyngor yn penderfynu cynnal sesiynau 'Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog' gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru cyn mynd ati i gynllunio'r ddarpariaeth ymhellach. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gynnal yn ystod 2022/23. |
| **Argymhelliad 6**<br>Y Cyngor i gynnwys yn ei strategaeth ehangach ar gyfer y Gymraeg strategaeth 5 mlynedd feiddgar ac ysbrydoledig (ynghyd â chynllun gweithredu gyda thargedau mesuradwy yn benodol i gynyddu lefel, amrywiaeth a chysondeb cynnyrch/cynnwys celfyddydol byw sydd ar gael i gynulleidfaoedd ledled Cymru). | Datganiad am ein Gweledigaeth newydd sy'n ysbrydoledig a deinamig i ddatblygu'r Gymraeg wrth ymateb i'r sefyllfa frys. Bydd yn dangos sut y gallwn ysgogi pob agwedd ar ein gwaith i gefnogi'r Gymraeg.<br><br>Gweithio gyda'n Portffolio a'n tîm ymchwil i ddatblygu targedau mesuradwy ar gyfer cysondeb ac ansawdd y cynnyrch sydd ar gael i gynulleidfaoedd a chyfranogwyr Cymraeg fel y gallwn gydweithio i ddangos bod gwir welliant.<br><br>Gweithio'n agos gyda Rhwydwaith Strategol y Gymraeg a'r Consortiwm Celfyddydol (pan gaiff ei sefydlu) i weithio mewn partneriaeth am y Weledigaeth i sicrhau ein bod yn defnyddio'r 5 Ffordd o Weithio. | Ymgynghori ar ein camau gweithredu mewn ymateb i Adroddiad Mapio'r Gymraeg. Mae'r adborth wedi darparu'r sylfaen i adeiladu arni dros y cyfnod nesaf.<br><br>Ymgynghori ar argymhellion Adroddiad Mapio'r Gymraeg a'n cynllun gweithredu arfaethedig gyda'r sector.<br><br>Mae'r camau gweithredu arfaethedig ar gyfer argymhellion yr adroddiad wedi cael eu diwygio ar sail y trafodaethau hyn.<br><br>Mae'r Adroddiad Marchnata Cymraeg wedi cael ei gwblhau ac fe'i cyhoeddwyd gyda'n hymateb i'w argymhellion ym mis Hydref 2021. |

| Argymhelliad adroddiad mapio 2020 | Ymrwymiad gweithredol Cyngor Celfyddydau Cymru 2020 fel ymateb i'r adroddiad | Cynnydd |
|---|---|---|
| Argymhelliad 6 (parhad) | Defnyddio ein sylfaen Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg i annog gwell craffu ar geisiadau'r Loteri Genedlaethol i asesu eu heffaith ar y Gymraeg.<br><br>Sicrhau ymrwymiad i gydraddoldeb, cynhwysiant a hygyrchedd yn ein holl weithgareddau – mae'r rhain yr un mor bwysig yn y Gymraeg hefyd.<br><br>Gweledigaeth i gynnwys cyfraniad Cymru at ddiogelu amrywiaeth ieithyddol fel rhan o nodau Lles a Chyfrifoldeb Byd-eang y Cenhedloedd Unedig. | Oherwydd effaith y pandemig ar weithgarwch a lefelau staffio a'r ffocws ar oroesi, yn 2020/21 gohiriwyd yr Adolygiad Buddsoddi. Y ffocws yn awr fydd gweithio'n strategol gyda phartneriaid megis Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar broses yr Adolygiad Buddsoddi er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn o'n Hamodau Grant i aelodau Portffolio Celfyddydol Cymru a defnyddio'r cymorth a gynigir i ddarparu dadleuaeth gadarnhaol a phroffil uchel i'r iaith yn yr holl weithgarwch y mae Cyngor y Celfyddydau yn ei ariannu.<br><br>Cynnal 10 sesiwn drafod fewnol ac allanol i fewnbynnu i'r strategaeth a'r weledigaeth.<br><br>Newidiwyd amserlen cyflawni'r Strategaeth i gyd fynd â chyflawni strategaeth newydd y Cyngor. Bydd yn cael ei chwblhau a'i rhannu yn ystod 2023.<br><br>Cynnal trafodaethau gyda'r tîm ymchwil er mwyn casglu data am weithredoedd Cymraeg / dwyieithog / amlieithog yn gynhwysfawr. Mae'r pwynt adrodd dwyieithog presennol yn nodi 50% + o waith yn Gymraeg yn golygu gwaith dwyieithog. Mae cwestiwn ymarferol ynghylch nodi amlieithrwydd yn enwedig o ystyried BSL fel trydedd iaith weithredol.<br><br>Mae cwestiwn am effaith ar y Gymraeg ym mhob cais loteri ac mae'r gofyn hwn yn cael ei graffu ar bob panel grant. |

| Argymhelliad adroddiad mapio 2020 | Ymrwymiad gweithredol Cyngor Celfyddydau Cymru 2020 fel ymateb i'r adroddiad | Cynnydd |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 7**<br>Datblygu llwybrau clir a chreadigol i ddatblygu gyrfa gynaliadwy yn y celfyddydau yn y Gymraeg gyda'r sector Addysg Bellach/Addysg Uwch, Coleg Cerdd a Drama Cymru, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a rhaglen Ysgolion Creadigol y Cyngor. | Datblygu trafodaethau yn y Rhwydwaith Strategol sy'n canolbwyntio ar lwybrau creadigol drwy'r Gymraeg.<br><br>Sicrhau bod darpariaeth a chyfleoedd Cymraeg yn cael eu hymgorffori'n briodol yn ein rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau.<br><br>Parhau i weithio i ddatblygu atebion dychmygus gyda phartneriaid allweddol ac unigolion/gweithwyr llawrydd. | Sicrhawyd gyllid a lluniwyd alwad tendr agored am waith ymchwil yn y maes hwn yn ystod Ionawr 2022.<br><br>Comisiynwyd Cwmni Arad i gynnal ymchwil ar Lwybrau datblygu'r Gymraeg o fewn y celfyddydau i weithwyr creadigol.<br><br>Gofynion yr ymchwil oedd:<br>• casglu gwybodaeth am y gwaith amrywiol sy'n digwydd ar hyn o bryd;<br>• casglu gwybodaeth am y diffygion a'r cyfleoedd datblygu gweithlu creadigol;<br>• trafod anghenion a syniadau gyda'r gweithlu creadigol, sefydliadau celfyddydol a darparwyr cyrsiau creadigol;<br>• llunio argymhellion am ddulliau datblygu'r meysydd uchod. Bydd yr adroddiad a'r argymhellion yn cael eu cyhoeddi yn ystod 2023. |

| Argymhelliad adroddiad mapio 2020 | Ymrwymiad gweithredol Cyngor Celfyddydau Cymru 2020 fel ymateb i'r adroddiad | Cynnydd |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 8**<br>Y Cyngor i sefydlu a rheoli'n barhaus gronfa ddata ganolog, ddeinamig o ymarferwyr/artistiaid Cymraeg i 'ddarparu gwybodaeth a chyngor arbenigol am y celfyddydau' (o gynllun corfforaethol y Cyngor) ac i nodi'r waelodlin bresennol. | Ystyried materion o ran y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a allai effeithio ar ein gallu i weithredu'r argymhelliad.<br><br>Sefydlu'r waelodlin bresennol yn fewnol.<br><br>Gweithio gyda Llywodraeth Cymru drwy ei Haddewid Llawrydd ynghylch posibiliadau'r argymhelliad. | Rydym yn archwilio dulliau posib o greu a chynnal cronfa ddata.<br><br>Mae sawl cwestiwn a phryder ynghylch perthnasedd cronfa ddata o'r fath i gorff ariannu'r celfyddydau.<br><br>Rydym yn canolbwyntio ein hymdrechion ar gynyddu nifer yr unigolion creadigol sy'n siarad Cymraeg sy'n gofyn am nawdd i'r Cyngor Celfyddydau a chynyddu sgiliau Cymraeg y gweithlu creadigol presennol.<br><br>Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau celfyddydol, unigolion creadigol a mudiadau iaith er mwyn creu cysylltiadau ymarferol a sicrhau cefnogaeth bartneriaeth er mwyn tyfu a rhannu gwybodaeth am ymarferwyr creadigol Cymraeg a siaradwyr newydd. |

| Argymhelliad adroddiad mapio 2020 | Ymrwymiad gweithredol Cyngor Celfyddydau Cymru 2020 fel ymateb i'r adroddiad | Cynnydd |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 9**<br>Cynyddu nifer yr ymarferwyr Cymraeg yn sylweddol gan ganran sydd wedi cytuno arni. | Adolygu ar frys sut y bydd modd i weithredu'r argymhelliad drwy ein rhaglen Llwybrau Creadigol unwaith y bydd gwaelodlin gywir wedi'i sefydlu.<br><br>Cyflymu ein gwaith o gefnogi prentisiaid, cyfleoedd mentora a phrofiad gwaith drwy'r Gymraeg. | Adeiladwyd ar lwyddiant y cynllun peilot 3 mis a gyflawnwyd gan Iaith Cyf. a ddarparodd wersi Cymraeg i sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru er mwyn datblygu neu fireinio sgiliau iaith eu staff, yn arbennig y rheiny sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol â'r cyhoedd.<br><br>Eleni bûm yn gweithio mewn partneriaeth â Theatr Genedlaethol Cymru a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar gwrs 'Iaith Gwaith' i weithwyr llawrydd.<br><br>Sefydlwyd bartneriaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn dilyn cyfres o gyrsiau peilot dros y tair blynedd ddiwethaf.<br><br>Fel rhan o'r gytundeb byddwn yn derbyn cyllid ychwanegol o'r Ganolfan er mwyn penodi Cydlynydd Dysgu Cymraeg ar gyfer y sector ar gyfer 2022/23.<br><br>Nod y swydd a'r bartneriaeth yw creu gwasanaeth 'Iaith Gwaith i'r celfyddydau'. |

| Argymhelliad adroddiad mapio 2020 | Ymrwymiad gweithredol Cyngor Celfyddydau Cymru 2020 fel ymateb i'r adroddiad | Cynnydd |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 10**<br>Y Cyngor i rannu â'r sector wybodaeth am yr ymarfer gorau ym maes marchnata Cymraeg i gynulleidfaoedd Cymraeg ac ymgymryd ag ymchwil gysylltiedig i anghenion cynulleidfaoedd Cymraeg. | Rydym eisoes wedi comisiynu darn o ymchwil i farchnata Cymraeg. Daeth yr ymchwil i ben yn Hydref 2020 a cyhoeddwyd ein hymateb ym mis Hydref 2021.<br><br>Fel rhan o'n gwaith i fodloni Safon 90 o Fesurau'r Gymraeg, rydym ni wedi datblygu pecyn offer sy'n hyrwyddo ymarfer da.<br><br>Dylai gwell partneriaethau â sector y Gymraeg ein galluogi i ddefnyddio datblygiadau academaidd, ymarferol a thechnolegol yn brydlon ac ymestyn eu proffil a'u defnydd yn y gymuned gelfyddydol. | Llunio a rhannu Pecyn Hyrwyddo Dwyieithrwydd yn benodol i sector y celfyddydau gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.<br><br>Mae'r pecyn yn cynnwys cyflwyniad ac anogaeth i gyflawni'r Cynnig Cymraeg.<br><br>Rydym wedi cynnwys cwestiwn yn ein ffurflenni cais am grant sy'n gofyn "Pa effaith ydych chi'n meddwl y bydd y prosiect hwn yn ei chael ar y Gymraeg?' (cadarnhaol/niwtral/negyddol) ac yn gofyn i ymgeiswyr esbonio pam y bydd y prosiect yn cael yr effaith ar y Gymraeg a nodwyd.<br><br>Mae ein nodiadau canllaw ar gyfer yr Adolygiad Buddsoddi hefyd yn datgan yn eglur mai'r Gymraeg yw un o'n blaenoriaethau a'i bod wedi cael ei chynnwys yn ein proses asesu.<br><br>Cwblhawyd Adroddiad Marchnata'r Gymraeg yn ystod 2020, a cyhoeddwyd ymateb yn Hydref 2021. Rydym yn y broses o weithredu'r argymhellion perthnasol. |

# Cydymffurfio

## Trosolwg o wasanaeth Cymraeg a chydymffurfiant

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu'r egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus. Comisiynydd y Gymraeg sy'n gyfrifol am orfodi dyletswyddau cyfreithiol y Mesur trwy gyfres o Safonau y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus megis Cyngor Celfyddydau Cymru eu cyrraedd. Mae'r Comisiynydd hefyd yn ein monitro bob blwyddyn i asesu pa mor dda rydym ni'n ei wneud o ran eu cyrraedd.

## Pwyllgor y Gymraeg

Mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru Bwyllgor y Gymraeg (Grŵp Monitro'r Gymraeg yn flaenorol) y mae ei Gyngor wedi rhoi cyfrifoldebau penodol iddo am gychwyn, rheoli a monitro gwaith mewn perthynas â'r Gymraeg yn y celfyddydau.

Mae Pwyllgor y Gymraeg yn un o'r 7 is-bwyllgor sydd, ynghyd â'r Cyngor, yn cychwyn, rheoli a monitro gwaith, ac y mae'r Cyngor yn dirprwyo pwerau penodol iddynt. Mae'r Pwyllgorau islaw'r Cyngor yn ein strwythur llywodraethu ond mae ganddynt dasgau a/neu awdurdod diffiniedig dirprwyedig i weithredu yn ogystal â rôl cynghori a chraffu pwysig, yn adrodd i'r Cyngor ar berfformiad y gweithgareddau hynny sy'n rhan o'u cylch gwaith.

Mae mwy o wybodaeth ar gael yma gan gynnwys Cylch Gorchwyl Pwyllgor y Gymraeg.

Un dasg allweddol i Bwyllgor y Gymraeg, fel yn y blynyddoedd blaenorol, oedd rhoi ar waith Safonau newydd y Gymraeg, fel y'u diffinnir yn y ddeddfwriaeth.

Gallwch weld rhestr lawn o'r Safonau sy'n berthnasol i ni yma.



Canolfan Mileniwm Cymru

## Safonau'r Gymraeg

Byddwn yn parhau i adolygu a diweddaru ein prosesau yn unol â safonau Comisiynydd y Gymraeg. Cliciwch yma i weld y safonau sy'n angenrheidiol eu gweithredu.

## Cwynion

Fel rhan o'n hymrwymiad i hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg, yn fewnol ac yn allanol, rydym yn cofnodi ac yn monitro unrhyw gwynion a gawn ynghylch y Gymraeg. Gall cwynion ymwneud â ni'n uniongyrchol, neu ymwneud â sefydliadau neu weithgareddau rydym wedi eu cyllido.

Yn ystod 2021/22, derbyniwyd dau gŵyn yn uniongyrchol. Roedd y naill yn ymwneud â gwall gweinyddol ynglŷn â chais am gyllid a ddaeth i law a'r llall yn cyfeirio at asesiad sgiliau Cymraeg swydd Cyfarwyddwr Datblygu Celfyddydau a hysbysebwyd. Arweiniodd hysbyseb y swydd hon at gwyn trydydd parti i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg gan arwain at ymchwiliad ar wahân, a oedd yn edrych ar ein dull o asesu gofynion y Gymraeg ar gyfer swyddi newydd a swyddi gwag.

Cawsom ymholiad pellach gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn dilyn cyhoeddi ein hadroddiadau comisiwn o dan ein gweithgarwch Ehangu Ymgysylltiad, gan ofyn am wybodaeth bellach am effaith bosibl ystyriaethau cydraddoldeb ar y Gymraeg.

Mae'r cyfan wedi cael sylw a'u datrys yn llawn yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

## Asesiad Sgiliau iaith

Fel rhan o'n datblygiadau parhaus i gryfhau'r Gymraeg o fewn y sefydliad, crewyd asesiad sgiliau iaith newydd. Mae'r asesiad hwn yn nodi pedwar dynodiad sgiliau iaith posib ar gyfer ymgeiswyr, sef:

### Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol o'r cychwyn cyntaf

Mae angen sgiliau Cymraeg o'r diwrnod cyntaf un er mwyn cyflawni'r gwaith yn foddhaol, ac nid oes yna unrhyw ffordd resymol eraill o ddarparu'r gwasanaeth yn Gymraeg yn foddhaol.

Ni chaiff person heb y lefel angenrheidiol o sgiliau iaith eu hystyried.

### Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol

Mae sgiliau Cymraeg ymhlith y sgiliau a fydd yn helpu i gyflawni dyletswyddau'r swydd yn foddhaol, ond nid ydynt yn hanfodol. Fodd bynnag, byddai unigolyn dwyieithog yn dod â sgiliau gwerthfawr i'r gweithle a fydd yn cryfhau gallu'r sefydliad i ddarparu gwasanaeth dwyieithog effeithiol ac effeithlon.

### Mae angen dysgu sgiliau Cymraeg yn sgil y penodiad

Mae angen sgiliau yn y Gymraeg o'r diwrnod cyntaf un i gyflawni'r gwaith yn foddhaol, ac mae'r cyflogwr yn chwilio am rywun â'r sgiliau hynny, ond gellir gwneud trefniadau dros dro nes bod sgiliau iaith y person a benodir wedi cyrraedd y lefel angenrheidiol ar gyfer y swydd.

Mae'r swydd felly'n agored i ymgeiswyr sy'n fodlon ymrwymo i gaffael/gwella eu sgiliau Cymraeg i'r lefel ddynodedig o fewn amserlen benodedig resymol gyda chefnogaeth y cyflogwr.

### Nid yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol

Nid yw sgiliau Cymraeg yn hanfodol i gyflawni'r gwaith am fod yr holl feini prawf hanfodol ar gyfer y swydd wedi cael eu hasesu, a'r casgliad yw nad yw'r Gymraeg yn ofyniad hanfodol i gyflawni'r dyletswyddau, ac ni fyddai hyn yn cael effaith niweidiol ar batrwm gweithio'r sefydliad a'i angen i fod mewn sefyllfa i ddarparu gwasanaeth dwyieithog effeithiol ac effeithlon. Mae angen i ni sicrhau ein bod ni'n defnyddio'r opsiwn o dan yr amodau penodol yma, yn hytrach na dibynnu ar ddymunol os nad yw'n hanfodol.

Mae'r ffurflen yn gofyn am ystyriaeth drylwyr o'r rôl, ei chyswllt gyda'r cyhoedd a gofynion perthnasol i gyflawni'r swydd o fewn y sefydliad.



Festival Interceltique
de L'Orient

## Hyfforddiant

Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i dreialu hyfforddiant mewnol gan gynnwys cyflawni rhagfarn ddiarwybod gan ganolbwyntio ar y Gymraeg ac ar ddatblygu cyrsiau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i'r staff a'r sector ehangach. Byddwn yn cyd-gynllunio'n gweithredoedd gyda Llywodraeth Cymru yn dilyn cynnal pump sesiwn Arwain mewn gwlad ddwyieithog sy'n cael eu cynnal gan Cadenza trwy gefnogaeth uned Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

## Penodiadau newydd

Yn ystod y flwyddyn adrodd hon, cyflawnwyd proses recriwtio Ysgogydd y Gymraeg a ddechreuodd ei swydd yn Nhachwedd 2021 yn ogystal â phenodi Cyfarwyddwr celfyddydol a rheolydd portffolio gyda chyfrifoldebau dros y Gymraeg. Ar ddyddiad ysgrifennu'r adroddiad hwn mae'r swyddi uchod wedi dechrau yn ogystal â chydlynydd dysgu Cymraeg.

## Ystadegau

Mae ein System Rheoli Cleientiaid newydd Cwmpas yn caniatáu mwy o ymarferoldeb/hyblygrwydd ar gyfer dadansoddiad ystadegol. Mae angen yn awr inni fireinio'r cwestiynau a ofynnwn er mwyn cipio gwybodaeth berthnasol am yr iaith Gymraeg.

Bydd yr ystadegau hyn yn caniatáu inni fesur cynnydd, canfod ymarfer gorau, gweld y meysydd y mae angen eu datblygu a mynd i'r afael â bylchau mewn darpariaeth.

Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos ag Audience Finder i wella'r data, fel y cam cyntaf tuag at ychwanegu'r gallu i nodi pa berfformiadau sy'n Gymraeg a pha rhai sy'n ddwyieithog.

# Gofynion statudol eraill

Trwy ddilyn 5 ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio, Cynnwys) gallwn gefnogi targed Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru sef sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg a dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg erbyn 2050 trwy gyflawni ei themâu.

### Strategol

- Creu amodau ffafriol i'r iaith ffynnu.
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

### Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi neges glir yn ei strategaeth ar y Gymraeg, Cymraeg 2050 – yr uchelgais i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.

Mae gan Cymraeg 2050 dair prif thema, sef cynyddu'r nifer sy'n siarad Cymraeg, y defnydd ohoni a chreu amodau ffafriol. Bydd ein holl gamau gweithredu yn 2021/22 yn cyfrannu at y meysydd hyn a nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) o eiddo Llywodraeth Cymru sef creu "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu".

Mae'r meysydd canlynol yn cynnwys argymhellion yr Adroddiad Mapio, gan addasu dibenion y camau gweithredu yn unol â'r adborth o'n hymgynghoriad. Rydym wedi rhannu ein meysydd gwaith yn ddwy ran allweddol: Datblygu a Monitro.

Rydym yn cyfrannu at gyflawni nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o greu "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu".

## Gofynion ein Siarter Frenhinol

“cyflawni’r amcanion (datblygiad, hygyrchedd a chynghori) trwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg.”

## Cyfrifoldebau Rhyngwladol

### Degawd Ieithoedd Brodorol Y Cenhedloedd Unedig 2022-2032

Pwysleisiodd Blwyddyn Ryngwladol Ieithoedd Brodorol UNESCO fod ieithoedd o gwmpas y byd yn parhau i ddiflannu yn frawychus o gyflym er gwaethaf eu gwerth enfawr a’r cyfraniad enfawr maent yn ei wneud i amrywiaeth ddiwylliannol gyfoethog y byd. Mae 40% o’r 7,000 o ieithoedd a ddefnyddir ledled y byd yn wynebu rhywfaint o berygl.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Adroddiad y Gymraeg 2021-22

www.celf.cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®